

Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

Lefel 2 - Uned 15

Uned 15 Rhedeg Gweithgaredd Menter

15.1 Cwblhau gweithgaredd menter

Bydd angen i chi ddewis gweithgaredd menter y byddwch yn gallu ei wneud ar eich pen eich hun neu gyda grŵp bach. Er mwyn gwneud y gweithgaredd yn llwyddiannus bydd angen i chi ddeall pwysigrwydd cael strategaeth, technegau gwasanaeth cwsmeriaid a gwerthiant, a gwybod sut i ddelio gydag arian.

Os ydych chi wedi cwblhau Sgiliau Arian a Chyllid Uned 14 'Cynllunio Gweithgaredd Menter' gallwch ddefnyddio peth o hwnnw neu os oes angen syniadau arnoch am fathau o fenter gall www.mysmallbiz.com eich ysgogi i feddwl am weithgareddau gwneud elw neu ewch i www.raisingmoneyforcharity.org.uk am weithgareddau codi arian.

I gael cymorth gyda'r math o sgiliau personol sydd eu hangen ar gofer rolau, gallech edrych ar raglen gerddoriaeth Quick Start Young Enterprise. - www.young-enterprise.org.uk/qsmusic/home.htm.

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Business Enterprise* (FA6) a chwblhewch y gweithgareddau isod.

15.1.1 Gweithgaredd 1

Cynhyrchwch gynllun i esbonio'r strategaethau y byddwch yn eu defnyddio i wneud yn siŵr y bydd eich gweithgaredd menter yn llwyddiannus (AC 1.1). Dylech gynnwys:

- cynnal ymchwil i'r farchnad
- adolygu cystadleuwyr
- gwerthuso eich sgiliau a'ch arbenigedd eich hun
- cynllunio ariannol.

! Cofiwch gynnwys copi o'ch cynllun gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

15.1.2 Gweithgaredd 2

a) Cwblhau'r gweithgaredd menter.

b) Darparwch dystiolaeth o'r sgiliau y gwnaethoch eu defnyddio i'ch tiwtor eu dilysu ee tystiolaeth fideo, ffotograffau neu ddatganiad tyst, (gellir sganio'r rhain a'u cadw gyda'ch Llyfr Log neu eu cadw yn eich ffolder), neu gall eich tiwtor eich arsylwi. Bydd eich tiwtor yn cofnodi eich perfformiad ar y siart isod felly bydd angen i chi roi hwn iddo/i i'w gwblhau. (AC 2.1)

Bydd eich tiwtor yn cwblhau'r siart isod:

Cofnod Gweithgaredd Menter	
Enw:	
	Sylwadau
Cynnyrch neu wasanaeth wedi'i baratoi	
Deunyddiau hyrwyddo wedi'u harddangos	
Lleoliad wedi'i baratoi / gweithgaredd menter wedi'i drefnu	
Prisiau wedi'u harddangos	

Sgiliau gwerthu wedi'u dangos	
Wedi gwrando ar gwsmeriaid	
Wedi ateb ymholiadau cwsmeriaid	
Dull cyfeillgar, cynorthwyol	
Llofnod tiwtor:	

! Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

15.1.3 **Gweithgaredd 3**

Esboniwch, gan roi dau reswm, pam mae hi'n bwysig trafod arian yn gywir mewn menter gweithgaredd. (AC 2.2).

a).....

.....

b).....

.....

15.1.4 **Gweithgaredd 4**

a) Cwblhewch daenlen i gyflwyno eich cofnodion ariannol ar gyfer y gweithgaredd menter. Mae enghraifft i'w gweld isod. (AC 3.1)

Elw a Cholled		
Cost uned cynhyrchu	£3.00	
Nifer yr eitemau a gynhyrchwyd	120	
Cyfanswm cost cynhyrchu		£360
Pris gwerthu	£5.00	
Cyfanswm yr eitemau a werthwyd	100	
Cyfanswm refeniw		£500
Elw neu Golled		£140

! Cofiwch gynnwys eich taenlen gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

b) Gan gyfeirio at ei berfformiad ariannol, esboniwch yn gryno ddau reswm pam roedd eich menter yn llwyddiant neu'n fethiant. (AC 3.1)

i).....

.....

ii).....

.....
.....
.....

15.1.5 Gweithgaredd 5

Ystyriwch yr adborth a gafwyd gan eich tiwtor am eich cyfranogiad yn y gweithgaredd menter i'ch helpu i ddisgrifio: (AC 4.1)

a) eich rôl(au) yn y gweithgaredd menter

.....
.....
.....
.....

b) y sgiliau rydych wedi eu hennill yn ystod y gweithgaredd.

.....
.....
.....
.....